# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.00 - 11.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_25_03_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC)**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Martin Evans, University of South Wales**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru**<br>**Mal Drury, Llywodraeth Cymru**<br>**Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Jeremy Morgan, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Matthew Mortlock, Performance Specialist. WAO**<br>**Gareth Morgan, Diwygio Ariannol, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)** |

Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar. Dirprwywyd ar ei ran gan William Graham.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Llythyr gan David Sissling (10 Mawrth 2014)

2.2 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Mawrth 2014)

2.3 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at Archwilydd Cyffredinol Cymru (10 Mawrth 2014)

2.4 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## 3 Gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn: Papurau Briffio

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn: Sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Holodd y Pwyllgor James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru, Mal Drury – Pennaeth Gweithrediadau

Ymrwymiadau Rheilffyrdd/Awyr, Llywodraeth Cymru a Gareth Morgan - Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflawni, Llywodraeth Cymru ynghylch gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

4.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn hon ac yn Eitem 7.

## 5 Gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn: Sesiwn dystiolaeth 2

5.1 Holodd y Pwyllgor Martin Evans, Cymrawd Gwadd - Cyfadran Busnes a Chymdeithas, Prifysgol De Cymru, ynghylch gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ynghylch gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, a chytunodd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gofyn am nifer o esboniadau a rhagor o wybodaeth.